

JOHNES, ARTHUR JAMES (1809 - 1871), barnwr llysoedd sirol

Enw: Arthur James Johnes
Dyddiad geni: 1809
Dyddiad marw: 1871
Rhiant: Mary Johnes
Rhiant: Edward Johnes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: barnwr llysoedd sirol
Maes gweithgaredd: Cyfraith; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
Awdur: Thomas Iorwerth Ellis

Ganed 4 Chwefror 1809, mab Edward Johnes, Garthmyl, Sir Drefaldwyn, a Mary Jones ei wraig, o Llifor, ac a oedd felly a chysylltiad a theulu **Owen** o Gefn-hafodau. Cafodd ei addysg yn ysgol ramadeg Croesoswallt a Choleg Prifysgol Llundain, a galwyd ef yn fargyfreithiwr gan Lincoln's Inn yn 1835. Yn 1847 penodwyd ef yn famwr llysoedd sirol yng Ngogledd Cymru; cynhwysai ei ranbarth ar un adeg beth o'r De hefyd, ac ymestynnai o Gaergybi i'r Gelli ('Hay'). Ymdaflodd i'w waith yn gydwybodol, ond ni chyfyngodd ei weithgarwch a'i ddiddordeb i'w ddyletswyddau swyddogol.

Ymgyfathrachai â chlerigwyr llengar megis Walter Davies ('**Gwallter Mechain**'), John Jenkins ('**Ifor Ceri**'), a **Thomas Richards**, ac yr oedd yn un o hyrwyddwyr *The Cambrian Quarterly Magazine*, 1830-3. Yn 1831 enillodd wobwr a gynigiwyd gan Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion am draethawd ar yr achosion a barasai ymneilltuad oddi wrth yr Eglwys Sefydledig yng Nghymru. Ymddangosodd ail argraffiad, wedi ei helaethu, yn 1832, a thrydydd yn 1870. Yn 1834 cyhoeddodd Johnes gyfiethiadau o ran o weithiau **Dafydd ap Gwilym**.

Cymerodd ran amlwg, ar ddirprwyaethau a thrwy ysgrifau, yn yr ymgyrch (1837 i 1846) yn erbyn uno esgobaethau Bangor a Llanelwy a throsglwyddo peth o'u gwaddol er budd esgobaeth newydd Manceinion. Llwyddodd yn hyn o beth. Ymddiddorai hefyd mewn agweddau eraill ar fywyd cyhoeddus Cymru. Ymddeolodd yn 1870, a bu farw yng Ngarthmyl 23 Gorffennaf 1871. Claddwyd ef ym mynwent Aberriw.

Awdur

Thomas Iorwerth Ellis, (1899 - 1970)

Ffynonellau

D. L. Thomas, *Johnes, Arthur James (1809-1871)*, *Oxford Dictionary of National Biography*, 1891

Collections Historical and Archaeological relating to Montgomeryshire, xv, 41-6

Marian Henry Jones, *The Letters of Arthur James Johnes, 1809-71*, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyf. X, 233-64

Marian Henry Jones, *The Letters of Arthur James Johnes, 1809-71*, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyf. X, 329-64

Marian Henry Jones, *Additional Letters of Arthur James Johnes, 1808-1871*, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyf. XIV, 129-82

Darllen Pellach

ODNB: *Johnes, Arthur James [pseud. Maelog] (1809-1871)*

Erthygl Wicipedia: *Arthur James Johnes*

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 4029440

Wikidata: Q18160397

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Ellis, T. I., (1953). JOHNES, ARTHUR JAMES (1809 - 1871), barnwr llysoedd sirol. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JOHN-JAM-1809>

Preifatrwydd a Chwciis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiolch i
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government